Datganiad o Faterion Adneuo

Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

Ymgynghoriad Cyhoeddus - Cynllun Adneuo - 28 Hydref - 16 Rhagfyr 2026

Mae'r Cynllun wedi'i Adneuo yn nodi'r canlynol:

- Y materion a'r amcanion sy'n sail i'r weledigaeth ar gyfer y Cynllun;
- Y weledigaeth sydd gan y Cyngor ar gyfer y Fwrdeistref Sirol; a'r strategaeth sy'n ceisio ei chyflawni;
- Polisïau strategol a pholisïau ar sail materion neu bynciau sy'n deillio o'r strategaeth;
- Dyraniadau a dynodiadau safleoedd ar gyfer defnyddiau tir penodol, sy'n gyson â'r strategaeth a'r polisïau wedi'u nodi yn y Cynllun.

Mae rhagor o fanylion yn yr atodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cynllun, ac yn y ddogfennaeth Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Yr ymgynghoriad cyhoeddus

Bydd dogfennau ar gael i'w gweld ar-lein, yn Nhŷ Penallta a phob llyfrgell. Bydd swyddogion ar gael ar sail apwyntiad yn Nhŷ Penallta drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi'i gomisiynu i hwyluso cyfres o ddigwyddiadau gweithdai ymgysylltu â'r gymuned. Dyma'r manylion am y digwyddiadau hyn:

- Dydd Mercher 11 Tachwedd 2026, 6 – 8pm YMCA Bargoed, 12, Plas Aeron, Bargod CF81 8JA
- Dydd Iau 12 Tachwedd 2026, 6 – 8pm Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG
- Dydd Mawrth 17 Tachwedd 2026, 6 – 8pm Ysgol Gynradd Rhisga, Ffordd Dan y Graig, Casnewydd NP11 6DB
- Dydd Mercher 18 Tachwedd 2026, 6 – 8pm Sefydliad Glowyr y Coed Duon, Stryd Fawr, Coed Duon, NP12 1BB
- Dydd Iau 26 Tachwedd 2026, 6 - 8pm Canolfan Gymunedol Twyn, Sgwâr Twyn, Caerffili CF83 1JL
- Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2026 6 – 8pm Ar-lein

Nid yw'r digwyddiadau i drafod ardal y lleoliad yn unig, ond byddan nhw'n cynnwys y Fwrdeistref Sirol gyfan, ac mae croeso i chi ddod i unrhyw un o'r digwyddiadau hyn. Er mwyn rhoi syniad i ni o ran niferoedd, defnyddiwch y ddolen ganlynol i gadw lle a dewis dyddiad sy'n addas i chi:

https://www.eventbrite.com/cc/caerphilly-county-borough-2nd-rldp-up-to-2035-3883423/

Sut i gyflwyno sylwadau ar yr 2RLDP

Gellir cyflwyno sylwadau ar ymgynghoriad yr 2RLDP yn y ffyrdd canlynol:

<table>
<tr><td>I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud sylwadau ar-lein, ewch i: https://caerphilly.oc2.uk</td><td rowspan="2"></td></tr>
<tr><td>Ebost – ldp@caerphilly.gov.uk</td></tr>
<tr><td colspan="2">Post - Y Tîm CDLl, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.</td></tr>
</table>

Y DYDDIAD CAU AR GYFER SYLWADAU YW 16 RHAGFYR 2026.